

Rhanbarth clyfar: cynnig ar gyfer arwain agweddau

Y Sefydliad Materion Cymreig

Y Sefydliad Materion Cymreig yw prif felin drafod annibynnol Cymru, sy'n sefydliad aelodaeth gyda bron i 1,000 o aelodau ledled Cymru a thu hwnt.

Mae yna ddwy brif ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio. Yn gyntaf, rydym yn darparu lle ar gyfer gwneud sylwadau annibynnol, trwy ysgogi trafodaeth adeiladol ar unrhyw fater sy'n berthnasol i Gymru. Yn ogystal â'n rhaglen barhaus o ddigwyddiadau, rydym yn cynnig ein cylchgrawn materion cyfoes uchel ei barch, *the welsh agenda*, a'n lle ar-lein Click on Wales, fel platfform ar gyfer sylwadau. Ymwelodd dros 27,000 o unigolion gwahanol â Click yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2017, felly rydym yn cyrraedd nifer sylweddol o bobl.

Yn ail, rydym yn cydweithio i lunio a datblygu ffordd feirniadol o feddwl yn ein pum maes blaenoriaeth: yr economi, addysg, llywodraethu, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a'r cyfryngau. Rydym yn edrych ar bethau o safbwynt hirdymor, yn cynnull arbenigwyr, ymarferwyr a phobl â phrofiad byw i ddyfeisio cynigion ymarferol ar gyfer gwelliannau i'w bwydo i'r broses llunio polisi. Rydym yn trefnu cysylltiadau dylanwadol, gan ddwyn cyfuniadau anarferol ynghyd sydd â gwahanol safbwyntiau. Rydym yn gweithredu fel pont rhwng Cymru a dysgu o fannau eraill. Nid ydym wedi'n cyfyngu gan delerau'r Cynulliad. Yn hytrach, mae gennym ddiddordeb mewn syniadau sy'n newid byd a all weddnewid Cymru'r dyfodol, a helpu i'w gwireddu.

Nod y prosiect

Cynnull a sbarduno darpar bartneriaid a rhanddeiliaid a rhai presennol a chynhyrchu argymhellion ymarferol a chyraeddadwy, trwy arwain agweddau'n effeithiol, i ddefnyddio technoleg i fanteisio i'r eithaf ar effaith gadarnhaol Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ein bwriad yw peidio â tharfau ar brosesau a threfniadau llywodraethu presennol, ond yn hytrach cynnig ein hunain fel partner awdurdodol, annibynnol, anwleidyddol, sy'n gallu arddangos syniadau o bob cwr o'r DU a thu hwnt, gan gasglu safbwyntiau llawer o bobl sy'n byw yn y rhanbarth, herio ffyrdd presennol o feddwl sy'n bodoli eisoes, a chysylltu rhanddeiliaid â'i gilydd.

Cefndir: Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRC) yn cynnig cyfle am gyfnod cyfyngedig i sbarduno partneriaid, rhoi ffurf i ffocws a llywio camau gweithredu i sicrhau'r gwerth ychwanegol y gallai technoleg glyfar ei ychwanegu at ddatblygiadau yn y rhanbarth.

Nod cyffredinol CCRC yw gwella amodau economaidd yr ardal trwy fuddsoddiad tridarn o £1.28 biliwn rhwng y 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU erbyn 2036. Yr uchelgais yw y bydd y fargen yn sicrhau cynnydd o 5% yng ngwerth ychwanegol gros y rhanbarth trwy ddarparu rhaglenni sy'n cynyddu cysylltedd, gwella'r seilwaith ffisegol a digidol, ac yn llywodraethu busnes rhanbarthol.

Mae'r Cabinet Cysgodol a sefydlwyd i lywio a darparu llywodraethu ar gyfer y Fargen wedi nodi bod prosiectau'n debygol o fod mewn pedwar maes: cysylltedd; digidol; arloesedd a sgiliau; a bod heb

waith. Hyd yn hyn, mae un buddsoddiad o £39.9 miliwn wedi'i wneud mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd.

Cyfle

Cafwyd ymgyrch amlwg iawn ledled y DU dros y deng mlynedd ddiwethaf am fand eang â mwy o gapasiti sydd ar gael yn ehangach. Gwariwyd biliynau o bunnoedd gan y sector preifat a chyhoeddus yn unol i geisio cyflawni'r nod hwnnw. Mae'r DU yn arwain Ewrop ym maes band eang erbyn hyn o ran argaeledd daearyddol, lled band, pris a chystadleuaeth manwerthu.

Ar ôl gwario'r biliynau hyn o bunnoedd, y cwestiwn allweddol nawr fodd bynnag yw sut mae'r buddsoddiad enfawr hwn yn troi'n fanteision economaidd a chymdeithasol sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion ac yn darparu swyddi a thwf? Mae dinasoedd a dinas-ranbarthau ar draws y byd yn mynd i'r afael â'r mater hwn, ac ni ddylai'r Fargen Ddinesig fod yn eithriad.

Yn y DU y prosiect y cyfeirir ato amlaf yw MK:Smart, prosiect ymchwil gwerth £16 miliwn, dan arweiniad y Brifysgol Agored, sy'n ceisio gwneud Milton Keynes yn fwy clyfar trwy ddeall data. Fel prosiect, mae MK:Smart yn seiliedig ar egwyddor syml – cynnwys holl randdeiliaid y ddinas yn y prosiect a sicrhau bod y dinasyddion yn ganolog iddo. Byddwn yn mabwysiadu'r un egwyddor wrth gynllunio a chyflwyno'r prosiect hwn.

Mae creu 'Hyb Data MK' o'r radd flaenaf yn ganolog i brosiect MK:Smart, a fydd yn cefnogi'r gwaith o gaffael a rheoli symiau helaeth o ddata sy'n berthnasol i systemau'r ddinas o amrywiaeth o ffynonellau data. Byddant yn cynnwys data am y defnydd o ynni a dŵr, data trafnidiaeth, data a gafwyd drwy dechnoleg lloeren, setiau data cymdeithasol ac economaidd, a data cyfrannu torfol o gyfryngau cymdeithasol neu apiau arbenigol.

Mae yna ddealltwriaeth eang fod yna fanteision cyflym posib yn y maes hwn e.e. rheoli traffig a goleuadau stryd clyfar. Fodd bynnag, mae yna nod strategol ehangach hefyd: nid yn unig creu seilwaith ffisegol sy'n gwella gwasanaethau cyhoeddus ond sylfaen sgiliau o bobl hefyd sy'n gallu gweithio yn yr amgylchedd digidol hwn a manteisio arno, yn ogystal â diwylliant arloesol lle mae busnesau digidol newydd yn ogystal â chorfforaethau mawr yn gallu ffynnu.

Er mwyn i'r De-ddwyrain (a rhanbarthau eraill yng Nghymru) groesawu'r syniad o Ranbarth Clyfar yn llawn, mae angen dull partneriaeth sy'n debyg i'r hyn sy'n llywio MK:Smart. Mae'r Sefydliad Materion Cymreig mewn sefyllfa unigryw yng Nghymru i gynnull partneriaid allweddol ar draws byd busnes, y byd academiaidd, y sector cyhoeddus, a gwleidyddiaeth i nodi atebion ymarferol a sbarduno camau gweithredu.

Amserlen a gymerwyd o Adroddiad ac Argymhellion y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth, Rhagfyr 2016.

Mae'r Fargen Ddinesig wedi bod yn tyfu mewn momentwm yn ystod 2016-17, ers i ffocws gael ei gytuno a chyllid gael ei sicrhau. Mae sut y caiff ei drefnu yn parhau i fod yn ddarlun cymhleth iawn, fodd bynnag, gydag amrywiaeth eang o fuddiannau a gweithgarwch sy'n gorgyffwrdd megis Tasglu'r Cymoedd a gyflwynodd [adroddiad](#) ar gwmpas ei weithgarwch ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r gwaith

o Lywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Twf Economaidd yn mynd rhagddo. Bydd y Bwrdd hwn yn gyfrifol am lywio'r fargen a nodi cyfleoedd. Gyda'i gilydd, bydd y mentrau hyn a mentrau eraill, gan gynnwys gweithgaredd yn Ninas Ranbarth Bae Abertawe sydd â ffocws digidol cryf, yn rhoi hwb sylweddol i weithredu'n gyflym a sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y momentwm hwnnw, ac mae potensial technoleg glyfar yn ffocws allweddol.

Mae'r Athro Greg Clark CBE, Cadeirydd y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth, yn cydnabod yn ei ragair i adroddiad y Comisiwn fod y cyfnod hwn yn cynrychioli dechrau newydd ffres ar gyfer y ddinas-ranbarth ac yn cynnig y posibilrwydd o ddull integredig, unigol a hirdymor o weithredu yn y rhanbarth, yn hytrach na mentrau lluosog a thameidiog cylchoedd y gorffennol. Mae gan brosiect cydweithredol am gyfnod penodol sy'n arwain agweddau, sy'n nodi argymhellion clir ac ymarferol ar dechnoleg glyfar y potensial i sbarduno, integreiddio ac ychwanegu gwerth at amcanion y Fargen Ddinesig, gyda'r cynllun strategol a'r strategaeth economaidd yn cael eu pennu yn y cyfnod hyd at 2020.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud eisoes dan arweiniad Peter Fox, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy, ar dechnoleg glyfar ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn yr un modd mae Partneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi De-ddwyrain Cymru (LSKIP), dan Gadeiryddiaeth Leigh Hughes o Bouygues, eisoes yn mynd i'r afael â phroblem allweddol sgiliau digidol. Mae'r cynnig hwn yn ceisio ategu'r ffrydiau gwaith sy'n bodoli eisoes ac ychwanegu gwerth atynt trwy arwain agweddau ar y farchnad fyd-eang enfawr sy'n dod i'r amlwg ar gyfer technoleg glyfar a'r rhyngrwyd pethau. Er enghraifft, mae'r FT (28.06.17) yn amcangyfrif y bydd cwmnïau'n gwario €250 biliwn y flwyddyn ar y technolegau hyn erbyn 2020 gyda hanner y gwariant hwnnw yn dod o'r diwydiannau gweithgynhyrchu, cludiant a chyfleustodau.

Y Cynnig

Y Sefydliad Materion Cymreig i gydlynu gweithgarwech a dod â phartneriaid at ei gilydd am gyfnod penodol o amser i ganolbwyntio ar arwain agweddau, trwy greu swydd ym maes polisi a ariennir am flwyddyn (tua £42,000 i dalu am gyflog gan gynnwys argostau, offer ar gyfer deiliad y swydd a chyllideb fach).

Byddai'r sefydliad yn ceisio sicrhau'r effaith fwyaf bosib o'r arian cychwynnol hefyd trwy ofyn am gyllid ychwanegol gan ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Byddai'r Sefydliad yn ceisio gweithio gyda mentrau presennol, gan gynnwys y gwaith sydd ar y gweill i greu arsyllfa ranbarthol i arwain penderfyniadau buddsoddi yn well mewn perthynas â'r Fargen Ddinesig a pholisi rhanbarthol yn gyffredinol.

Byddai'r prosiect hwn yn digwydd mewn tri cham allweddol:

- i) cynnull grŵp cynghori arbenigol a mireinio cwmpas y prosiect
- ii) archwiliad cynhwysfawr o'r hyn sydd ar gael eisoes yn y rhanbarth a chael barn gyhoeddus dorfol ar faterion blaenoriaeth penodol y mae'r Fargen Ddinesig yn mynd i'r afael â nhw
- iii) trywydd o gamau ymarferol sy'n disgrifio sut i greu canlyniadau pendant.

Dyma nodweddion allweddol y prosiect a gynigiwn:

- Arwain agweddau, gan ganolbwyntio ar atebion ymarferol trwy dechnoleg glyfar
- Paramedrau rhanbarthol, er mwyn sicrhau bod y manteision yn cael eu lledaenu ledled cymunedau
- Annibynnol, ond wedi'i gysylltu'n dda a'i chydlynu â gweithgarwch allanol
- Ffocws pendant i gychwyn a llywio'r drafodaeth
- Meithrin consensws cadarn ymhlith partneriaid allweddol
- Ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd - gwranddo ar yr hyn y mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y rhanbarth yn ei ddweud y maen nhw ei eisiau
- Dechrau ystyried effeithiau economaidd posib, er enghraifft o ran creu swyddi o safon, ac ysgogi twf lleol a mewnfuddsoddiad.

Rôl y Grŵp Cyngori

Bydd grŵp cyngori yn cael ei sefydlu i ddarparu trosolwg arbenigol a chefnogaeth i'r prosiect, o'r cychwyn cyntaf nes ei gyflawni. Yn benodol, bydd y grŵp yn gyfrifol am oruchwylio'r prosiect a helpu i nodi:

- Canlyniadau'r prosiect - beth allwn ni ei gyflawni ac erbyn pryd?
- Beth sy'n digwydd eisoes? Yng Nghymru, y DU, yn rhyngwladol? Beth allwn ni ei ddysgu?
- Beth yw'r amserlenni - pa ddigwyddiadau allanol sydd angen i ni eu hystyried ac ymateb iddynt gydol y prosiect?
- Beth yw nodweddion penodol ein rhanbarth? Beth yw ein problemau mwyaf? Sut all technoleg gyfrannu at eu hadnabod a'u goresgyn nhw?
- Beth ddylem ni ei flaenoriaethu? Beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf a sut fyddem ni'n pwysu a mesur hynny?

Partneriaid Posib y Grŵp Cyngori (uchafswm o 8-10)

- Sector Cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Academyddion, gan gynnwys y Brifysgol Agored a Phrifysgol Caerdydd
- Partneriaid sector preifat, gan gynnwys Bouygues, Microsoft, BT, NGD (Casnewydd), ICE, Tramshed Caerdydd, PWC, ARUP
- Eraill, gan gynnwys grwpiau cymunedol a thrydydd sector allweddol yn y rhanbarth

Y camau nesaf arfaethedig (yn amodol ar gyllid ac amserlenni allanol)

1. Haf 2017 ymlaen: Ceisio cael cefnogaeth gan bartneriaid arbenigol i ffurfio grŵp cyngori ar gyfer y prosiect, a chwilio am bartneriaid ariannu
2. Hydref 2017: cynnal cyfarfod i drefnu grŵp cyngori i fireinio cwmpas a rhesymeg y prosiect, a'r achos dros ei gefnogi
3. Hydref 2017: Sicrhau arian ar gyfer y swydd polisi
4. Chwefror 2018: Cynhyrchwyd adroddiad archwilio i nodi beth mae pobl yn ei wneud yn barod a'r "problemau" allweddol yn y rhanbarth yn sgil gwaith arwain agweddau y gall technoleg gyfrannu at eu gwella
5. Gorffennaf 2018: Adroddiad ar atebion polisi a ddatblygwyd gydag argymhellion ar gyfer blaenoriaethau gweithredu, a gweithgarwch cyfathrebu cysylltiedig

Rhagor o wybodaeth

Er mwyn dechrau'r gwaith pwysig hwn, mae angen cefnogaeth arnom ar gyfer y prosiect, arbenigedd a chymorth ariannol.

Os hoffech drafod ymhellach, cysylltwch â:

Rhea Stevens,
Rheolwr Polisi, Prosiectau a Materion Allanol
Sefydliad Materion Cymreig

56 James Street | Bae Caerdydd | Caerdydd | CF10 5EZ

029 2048 4387 / 07841 017 567

rhea.stevens@iwa.org.uk

www.iwa.wales